# Helo

Croeso i newyddlen gyntaf Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, ein ffordd ni o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddiwydiant, rhanddeiliaid, partneriaid a'r gymuned ehangach am gynnydd ein prosiect a rhannu'r gwersi wrth i ni fynd yn ein blaen.

Byddwn nid yn unig yn dweud wrthych chi am ein cynnydd, ond rhoddwn wybodaeth bellach i chi am sut mae'r Ôl-osod i'r 1,370 o gartrefi braenaru yn mynd rhagddo a sut mae ôl-osod er mwyn optimeiddio yn edrych ar waith.

Dilynwn hynt datblygiad cyfres o offeryn digidol sy'n ategu'r prosiect hwn.

Yr offer hyn yw beth fydd yn galluogi dalgarboneiddio cartrefi ledled Cymru.

Hefyd byddwn yn dogfennu cyfleoedd 'mân brosiectau' yr economi sylfaenol ehangach, sydd gydai gilydd yn cyflawni cwmpas y gwaith, gan ymdrin ag ystod o feysydd gan gynnwys caffael, cyllid, sgiliau a hyfforddiant.

Rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth am y prosiect yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod eifeddiaeth Ôl-osod er Mwyn Optimeiddio yn rhagori o bell ffordd ar gyflenwi'r prosiect ei hun.

## Beth yw nod y prosiect?

Bydd prosiect Ôl-osod er Mwyn Optimeiddio yn trosi mwy na 1,370 o gartrefi ledled Cymru i fod yn fwy ynni-effeithlon a, chan ddefnyddio'r gwersi a ddysgir o'r cartrefi braenaru yma, yn gallugoi creu'r offer digidol mae eu hangen i fynd ati i ddatgarboneiddio cartrefi ar hyd a led Cymru.

## Cipolwg ar Ionawr

Mae'r 26 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid i ni wedi dechrau ymgysylltu â'u presswylwyr wrth iddynt nodi cartrefi braenaru.

Y cartrefi fydd ein 1,370 o brosiectau peilot a fydd yn gadael i ni brofi a mireinio'r offer digidol Ôl-osod er Mwyn Optimeiddio.

Bydd sicrhau dealltwriaeth a chefnogaeth presswlyvr yn allweddol i lwyddiant y prosiect hwn.

Mae ymrwymiad cymunedol tymor hwy yn holl-bwysig i ddatgarboneiddio cartrefi ledled Cymru yn llwyddiannus.

Nod y sgyrsiau cynnar hyn yw deall beth sy'n bwysig i bresswlywr a pha gyfleoedd sy'n bodoli i uchafu manteision y buddsoddiad newydd hwn - yn enwedig datgloi cyfranogiad cymunedau ar faterion newid yn yr hinsawdd a chynaladwyedd.



## Arolygon cartref

Cychwynnon ni ein Hyfforddiant Arolygon Cartref ddydd Llun 18 Ionawr.

Yn hwn byddwn yn edrych ar gyfres o fodiwlau dros bedair wythnos; gan hyffordd mwy na 100 o syrfewyr.

Mae'r hyffordd ant wedi digwydd yn rhithwir dros Zoom a'r bwriad yw iddo drafod pob agwedd ar yr Arolwg Cartref Cyfan.

Bydd hyn yn rhoi'r sgiliau i'r syrfewyr gwblhau arolygon trylwyr o'r cartrefi braenaru.

Mae pob arolwg yn benodol i bob cartref ac yn llywio'r cynllun Llwybrau i Sero i fynd â'r cartref hwnnw i'w ôl-troed carbon isaf cyflawnadwy.

## Dyma'n bwrdd prosiect

Ein bwrdd prosiect, sy'n cynnwys cynrychiolwyr partneriaid y prosiect, sy'n gyfrifol am oruchwylio cyflenwi'r prosiect.

Bydd y bwrdd yn cwrdd bob mis i drafod cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflenwi'n effeithlon ac yn brydlon.

Mae'r bwrdd yn cynnwys:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sarah Schofield | Adra | Vic Cox | Wales & West Housing |
| Andrew Bateson | Cadwyn | Ahsan Khan | ARC |
| Owain Israel | Linc | Gareth Wyn Evans | CWIC |
| Stacy Thomas | Merthyr Valleys Homes | Clare Jones | Grasshopper Communications |
| Wayne Harris | Pobl | Wyn Prichard | Newport College |
| Andrew Carey | Tai Tarian | Andy Sutton | Sero |
| David Bolton | Valleys to Coast | Simon Ayers | TrustMark |

## Economi sylfaenol

Ymgysylltu â chymunedau ynghylch newid yn yr hinsawdd

Mae pobl ym Mlaenau Gwent wedi cael eu gwahodd i rannu eu barn ac awgrymu atebion am ymdrin â'r argyfwng hinsawdd yng nghymuned hinsawdd cyntaf Cymru i drafod newid yn yr hinsawdd.

Bydd Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent yn cael ei gynnal yn ystod dau benwythnos ym Mawrth a'i drefnu gan gymdeithasau tai United Welsh, Linc Cymru, Melin Homes a Tai Calon mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, FRS Cymru a'r elusen cynaladwyedd arnibynnol Cynnal Cymru.

Bydd y Cynulliad yn dod â 50 o bresswlywyr Blaenau Gwent ynghyd o bob rhan o'r fwrdeistref i drafod y cwestiwn: 'Beth dylen ni ei wneud ym Mlaenau Gwent i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd mewn modd sy'n deg ac yn gwella safonau byw i bawb?'

Gan edrych ar themâu tai, natur a mannau gwyrdd, trafnidiaeth a bwyd, bydd argymhellion y Cynulliad yn llywio sut bydd partneriaid yn ymdrin â newid yn yr hinsawdd ac yn gweithio gyda chymunedau'n effeithiol yn y dyfodol.

Blaenau Gwent i gynnal y Cynulliad Hinsawdd cyntaf yng Nghymru - United Welsh.

Climate Assembly Cynulliad Hinsawdd

## Digwyddiad Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru

Ddydd Mawrth 26 Ionawr, cynhaliodd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CE Wales) achlysur cyntaf rhaglen o ddigwyddiadau Construction Opportunity Knocks.

Cyflwynodd y digwyddiad Ôl-osod er Mwyn Optimeiddio, beth yw e, beth yw'r cyfleoedd a beth fydd y manteision i holl gadwyn gyflenwi amgylchedd adeiledig Cymru.

Cafodd y digwyddiad ei fynychu gan fwy na 150 o bobl ac ysbrydolodd y siaradwyr ddigonedd o gwestiynau a thrafodaeth.

Clywodd y gynulleidfa gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r cynllun drwy ei Rhaglen Tai Ar'loesol, gan gynnwys geiriau gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AS.

Ymhlith y siaradwyr eraill roedd Colin King Sero ac Wyn Prichard, Cyfarwyddwr Sgiliau Adeiladu Coup Colegau NPTC, a bwysleisiodd ill dau y potensial anferth i'r rhaglen wella ansawdd bywydau ac y bydd y nodau'n gosod templed am fwy o waith ôl-osod ledled y DU, nid yng Nghymru yn unig.

Ar gymhellwn yn gryf wrando ar y sesiwn os gwnaethoch chi ei cholli.

.pdf .pdf Fideo

Gallwch chi ddefnyddio'r dolenni art y chwith i gyrchu'r sesiwn ar sleidiau.

Mae'r ddolen fideo yn defnyddio WeTransfer ac yn cymryd tuag wyth munud i'w lawrlwytho.

## 'Trydarwch ni'

Rydym ni bellach ar gyfrryngau cymdeithasol.

Ochr yn ochr â'n brandio a'n logo newydd, lansiom ni ein Twitter (@OptimisedR) a LinkedIn (Optimised Retrofit: Overview | LinkedIn) Ôl-osod er Mwyn Optimeiddio yn gynharach y mis yma.

Dilynwch ni am newyddion diweddaraf ein prosiect, erthyglau cysylltiedig ac astudiaethau achos sy'n mynd rhagddynt.

## Dymunwn glywed oddi wrthych chi!

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu'n dymuno dysgu mwy am y prosiect Ôl-osod er Mwyn Optimeiddio, cysylltwch â ni:


| | |
|---|---|
| Ewch i: | Optimised Retrofit – Sero Group |
| E-bost: | optimisedretrofit@sero.life |
| Dilynwch ni ar Twitter: | @OptimisedR |
| LinkedIn: | Optimised Retrofit |


sero